Hawdd ei Ddeall

Cymru Wrth-hiliol | An Anti-racist Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyflwyniad i Gymru Gwrth-hiliol

## Y pethau mae arnon ni eisiau eu gwneud i helpu i wneud yn siŵr bod pawb yng Ngymru yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru.** Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Gyflwyniad i Gymru Gwrth-hiliol**'.

Mehefin 2022

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Gallwch edrych beth mae'r holl eiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 25**.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**.

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**

Cyflwyniad....................................................................................................4

Y pethau mae arnon ni angen eu gwneud a’r ffordd y byddwn ni’n eu gwneud nhw.................................................................................................7

Beth mae hiliol a gwrth-hiliol yn ei feddwl?..........................................9

Chwech math o hiliaeth a’r camau y byddwn ni’n eu cymryd .......13

Sut y byddwn ni’n gwneud yn siŵr y bydd y Cynllun yn gweithio...23

Geiriau anodd..........................................................................................25

# Cyflwyniad




Bydd Llywodraeth Cymru'n cymryd camau i wneud yn siŵr bod Cymru'n genedl **wrth-hiliol**.



**Hiliaeth** yw pan fydd rhywun yn trin person arall yn wahanol neu'n annheg oherwydd eu cefndir, eu diwylliant, eu credoau crefyddol neu sut maent yn byw.

Nid bod yn **wrth-hiliaeth** yn unig yw nid bod yn hiliol, mae'n golygu gwneud rhywbeth am hiliaeth a sefyll yn ei erbyn. Mae'n golygu newid ein cyfreithiau, ein polisïau, ein harferion a'r ffordd rydym yn gweithio ar draws gwasanaethau, fel bod pobl yn cael eu trin yn deg a bod eu bywydau'n well.



Mae pobl **Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig** wedi dweud wrthym fod angen i ni gymryd cyfrifoldeb a sicrhau bod hyn yn digwydd.



Mae pobl **Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig** yn bobl a all fod â lliw croen gwahanol. Neu fod yn grefydd wahanol.

Neu efallai eu bod yn dod o wlad arall.

Neu efallai yn byw mewn ffordd wahanol.

Efallai bod rhai pobl yn dod o fwy nag un wlad neu gefndir.

Yn y ddogfen hon byddwn yn dweud pobl lleiafrifoedd **ethnig** i fod yn fyr.



Y flwyddyn diwethaf fe ofynnon ni am farn pobl ynglŷn â gwneud **Cynllun Gwrth-hiliol** ar gyfer Cymru.




Rydyn ni wedi gwneud y **Cynllun** hwnnw nawr. Mae'r ddogfen hon yn fersiwn byrrach o'r **Cynllun**.





I weld y **Cynllun** llawn cliciwch yma: https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol



Un o'r pethau mae arnon ni eisiau ei wneud yw gwneud yn siŵr bod y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn **wrth-hiliol**.




Mae hyn yn golygu gwirio ein rheolau a'n cyfreithiau a'r ffordd yr ydym yn gweithio yn ogystal â phopeth a wnawn.



Rydym am wneud llawer o newidiadau yng Nghymru erbyn y flwyddyn 2030 a thu hwnt.



Mae arnon ni eisiau i bawb yng Nghymru gael eu trin yn deg a chael cyfleoedd i wneud yn dda mewn bywyd.




Yn y fersiwn gyntaf o'r **Cynllun** rydym yn dangos beth sydd angen i ni ei wneud yn y 2 flynedd nesaf.O Fehefin 2022 i Fehefin 2024.



I wneud y Cynllun fe siaradon ni â llawer o bobl yng Nghymru. Roedden nhw'n dod o lawer o wahanol grwpiau **lleiafrifoedd ethnig**.



I wneud y newidiadau hyn mae arnon ni angen i'r cyhoedd a mudiadau yng Nghymru gymryd rhan.



Bydd grŵp o bobl a fydd yn gwirio y byddwn yn ei wneud, yr hyn yr ydym yn dweud y byddwn yn ei wneud yn y **Cynllun**.

# Y pethau mae arnon ni eisiau eu gwneud a'r ffordd y byddwn ni'n eu gwneud nhw



We may not be able to get rid of all racism in Wales by 2030 so we will continue to work beyond this date but it helps to have a focus for now.



Ond mae arnon ni eisiau gwneud Cymru yn wlad sydd ddim yn goddef **hiliaeth**.



Ni fydd y gwaith yn dod i ben yn 2030. Bydd yn dal i fynd ymlaen.



Rydyn ni'n gwneud y gwaith hwn i helpu i wella bywydau pobl **lleiafrifoedd ethnig** yng Nghymru.



Mae arnon ni eisiau i Lywodraeth Cymru edrych ar ei gwaith ar gyfer **hiliaeth**. Ond mae arnon ni eisiau i bob mudiad wneud yr un peth hefyd.



Pan ofynnon ni i bobl beth roedden nhw'n meddwl o'n gwerthoedd, roedden nhw'n eu hoffi. Y gwerthoedd yr oedden nhw eu heisiau yw:




- Bod yn agored ac yn glir am y pethau rydyn ni'n wneud.




- Gwneud  yn siŵr bod hawliau pobl yn cael eu dilyn yn ein gwaith



- Gwrando ar brofiadau pobl o **hiliaeth** a gwneud yn siŵr eu bod yn dylanwadu ar yr hyn a wnawn.

# Beth y mae hiliaeth a gwrth-hiliaeth yn ei feddwl?

Nid yw pobl yn meddwl bod rhai pobl yn bobl o **leiafrif ethnig** er y buasen nhw'n cael eu dosbarthu felly.



Er enghraifft:



- Grwpiau Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- Pobl Iddewig
- Rhieni a phlant o fwy nag un cefndir



Mae **hiliaeth** yn cael effaith aruthrol ar fywydau pobl.



Er enghraifft, efallai y byddan nhw'n cael eu trin yn annheg yn yr ysgol neu yn y gwaith.



Efallai y byddan nhw'n cael llai o gyfleoedd mewn bywyd.



Efallai y byddan nhw'n cael eu stopio gan yr heddlu yn fwy aml.



Mae'r holl bobl o **leiafrifoedd ethnig** yn dweud mai'r unig beth sydd arnyn nhw  eisiau yw cael eu trin yn deg.




Mae llawer o bethau wedi cael eu rhoi yn eu lle dros y blynyddoedd i geisio delio â **hiliaeth**.



Ond mae llawer sydd heb weithio. Neu heb wneud digon.



Un o'r problemau mwyaf yw bod pobl wyn yn aml yn cael y swyddi mwyaf pwysig. Ac mae hyn yn meddwl eu bod yn cael y pŵer mwyaf mewn cymdeithas.




Nid yw hyn yn deg i grwpiau eraill o bobl ac rydym yn colli'r dalent a'r sgiliau sydd ganddynt. Ein colled ni i gyd ydyw.



Weithiau mae'r ffordd rydyn ni'n gwneud pethau mewn llywodraeth a'r ffyrdd rydyn ni'n gweithio ynddynt yn medru cael effaith fawr ar bobl o **leiafrifoedd ethnig**.




Mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr bod y ffyrdd rydyn ni'n gweithio yn deg i bawb. A gwneud yn siŵr bod pawb yn cael yr un cyfleoedd.




Mae **Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru** https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol yn gynllun i wneud rhywbeth gwahanol ynghylch **hiliaeth**.



Bydd hyn yn digwydd ym mhob ardal y mae gan Lywodraeth Cymru reolaeth drosto neu ble gall wneud gwahaniaeth.




Credwn hefyd fod COVID-19 wedi cael mwy o effaith ar bobl o **leiafrifoedd ethnig**. Ac rydym yn cymryd camau i fynd i'r afael â hyn.



Rydyn ni hefyd yn gwneud gwaith i weld sut y mae **hiliaeth** ynghlwm wrth ein hanes.



Mae arnon ni angen gwneud yn siŵr bod myfyrwyr yn dysgu am **hiliaeth** a ddigwyddodd yn y gorffennol.




Rydym hefyd yn edrych i mewn i sut y gallai pethau fel cerfluniau roi'r argraff anghywir ynghylch pwy sy'n bwysig ac yn cael ei werthfawrogi. Ac enwau strydoedd. A beth sydd angen ei newid.




Gwyddom y gall rhai pobl o **leiafrifoedd ethnig** gael eu trin yn annheg am fwy nag 1 rheswm. Er enghraifft, nid yw menywod o **leiafrifoedd ethnig** yn cael yr un cyfleoedd â dynion o **leiafrifoedd ethnig**.



Mae hyn yn meddwl y gall menywod o **leiafrifoedd ethnig** gael eu trin yn annheg mewn mwy nag un ffordd.

# Chwech math o hiliaeth a'r camau y byddwn ni'n eu cymryd




Yn y Cynllun fe benderfynon ni ganolbwyntio ar chwech math o **hiliaeth** sy'n digwydd yn aml.

**Dyma'r chwech math ac enghreifftiau o'r camau y byddwn ni'n eu cymryd:**

## 1. Eich profiad o hiliaeth mewn bywyd bob dydd.



Er enghraifft, dywedodd pobl eu bod yn cael profiad o hiliaeth gan bobl ddieithr.



Ac mae pobol **Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig** yn fwy tebygol o gael eu stopio gan yr heddlu na phobl wyn.

**Y pethau y byddwn ni'n eu gwneud:**



- Byddwn yn cefnogi cymunedau i weithio mwy gyda'i gilydd.



- Byddwn yn helpu i rwystro **Islamoffobia**.

> Mae **Islamoffobia** yn meddwl hiliaeth tuag at Fwslemiaid.



- Gweithio ar ymgyrch sy'n cael ei alw'n **Mae Casineb yn Brifo Cymru**.



- Byddwn yn gwneud yn siŵr bod y math iawn o gartrefu ar gael ar gyfer grwpiau Sipsiwn a Theithwyr.

## 2. Eich profiad o hiliaeth wrth dderbyn gwasanaethau.



Weithiau nid yw pobl o **leiafrifoedd ethnig** yn teimlo bod gwasanaethau iechyd yn gwrando arnyn nhw.



Mae llawer o fyfyrwyr yn cael profiad o **hiliaeth**.

**Y pethau y byddwn ni'n eu gwneud:**



- Byddwn yn gwneud yn siŵr bod **lleiafrifoedd ethnig** yn cael yr un gwasanaethau iechyd â phobl eraill mewn cymdeithas.



- Bydd hyn yn cynnwys newidiadau i wasanaethau mamolaeth.



- Byddwn yn gwella'r ffordd rydyn ni'n edrych i weld a oes **hiliaeth** mewn ysgolion.




- Byddwn yn gwneud yn siŵr bod **hiliaeth** yn cael ei drin yn iawn mewn ysgolion.

## 3. Eich profiad o hiliaeth yn y gweithle



Mae pobl wedi profi **hiliaeth** gan staff eraill a chwsmeriaid yn y gwaith.



Mae pobl o **leiafrifoedd ethnig** yn teimlo ei bod yn fwy anodd iddyn nhw gael gwell swydd.

**Y pethau y byddwn ni'n eu gwneud:**



- Byddwn yn helpu i wneud yn siŵr bod pobl o **leiafrifoedd ethnig** sy'n gweithio mewn gwasanaethau iechyd yn cael eu trin yn deg. Er enghraifft, byddwn yn cychwyn safon sy'n cael ei alw'n **Safon Cydraddoldeb Hil o fewn y Gweithlu erbyn 2023**.




- Byddwn yn newid y ffordd rydyn ni'n gweithio yn Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, trwy ofyn i bobl sydd wedi cael profiad o **hiliaeth** i edrych ar ein polisïau.

## 4. Eich profiad o hiliaeth wrth gael swyddi a chyfleoedd.



Mae rhai pobl o **leiafrifoedd ethnig** yn teimlo ei bod yn fwy anodd iddyn nhw gael swydd ar unrhyw lefel.



Yn aml mae pobl o **leiafrifoedd ethnig** yn ennill llai o arian na phobl wyn.

**Y pethau y byddwn ni'n eu gwneud:**




- Byddwn yn gwneud yn siŵr bod gweithio i Lywodraeth Cymru yn ddiogel a theg i bob aelod o staff a myfyriwr.



- Byddwn yn gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu talu'n deg.

## 5. Eich profiad o hiliaeth oherwydd nad oes gennych chi ddigon o fodelau rôl fel chi i edrych i fyny atynt.



Nid oes digon o bobl o **leiafrifoedd ethnig** mewn swyddi uchel.

**Y pethau y byddwn ni'n eu gwneud:**



- Mae arnon ni eisiau gweld mwy o gyfleoedd i bobl o **leiafrifoedd ethnig** gael swyddi yn Llywodraeth Cymru. Ac mae arnon ni eisiau iddyn nhw weld Llywodraeth Cymru fel cyflogwr da.



- Ein bwriad yw y bydd ugain allan o bob cant o swyddi yn Llywodraeth Cymru yn cael eu llenwi gan bobl o **leiafrifoedd ethnig** erbyn 2026.



- Mae arnon ni eisiau i'r GIG weithio gyda rhaglen sy'n cael ei galw'n **Raglen Darpar Aelodau Bwrdd**. Mae hyn yn cefnogi pobl o **leiafrifoedd ethnig** i'n helpu i wneud penderfyniadau pwysig.

## 6. Eich profiad o hiliaeth fel ffoadur neu geisiwr lloches.



Yn aml, nid yw **ceiswyr lloches** a **ffoaduriaid** yn teimlo eu bod yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw.



Mae rhai **ceiswyr lloches** a **ffoaduriaid** hefyd yn profi **hiliaeth** oherwydd lliw eu croen, ffydd neu **ethnigrwydd.**




Mae **ffoadur** yn berson sydd wedi gorfod gadael ei wlad oherwydd ei fod mewn perygl yno. Er enghraifft, efallai bod rhyfel yno. Neu efallai ei fod yn cael ei fygwth.

Mae **ceisiwr lloches** yn berson sy'n gofyn am gael ei ddosbarthu fel **ffoadur** yn y wlad newydd y mae wedi mynd iddi. Mae'r wlad newydd yn edrych ar eu sefyllfa er mwyn gwneud penderfyniad.

**Y pethau y byddwn ni'n eu gwneud:**



- Byddwn yn parhau i gael ein galw'n  Genedl Noddfa. Mae hyn yn meddwl ein bod yn ceisio cefnogi **ceiswyr lloches** a **ffoaduriaid**.




- Mae gennym ni gynllun yn ei le, i ddweud ffordd y byddwn ni'n cefnogi **ceiswyr lloches** a **ffoaduriaid**, sy'n cael ei alw'n **Genedl Noddfa: Cynllun Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid (2019)**.

**Mae'r cynllun hwn yn dweud y byddwn ni'n gwneud pethau fel:**



- Gwneud yn siŵr y bydd pobl yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw i ymgartrefu yn eu cymuned newydd.



- Cefnogaeth i ddeall yr iaith.



- Cefnogaeth i ddod o hyd i rywle i fyw.



- Cefnogaeth i gael gwaith.

## Casglu gwybodaeth




Gwyddom nad oes gennym ddigon o wybodaeth am bobl o **leiafrifoedd ethnig** a'u profiadau yng Nghymru a rhai meysydd o fywyd.



Byddwn yn ceisio dysgu mwy er mwyn i ni fedru delio â **hiliaeth** a phobl sy'n cael eu trin yn annheg.

# Sut byddwn yn sicrhau bod y Cynllun yn gweithio



Rydym wedi gweithio gyda phobl a grwpiau **lleiafrifoedd ethnig** i helpu i osod nodau i ddod o hyd i'r ffordd orau o wneud yn siŵr ein bod yn gwneud yr hyn a ddywedwn y byddwn yn ei wneud.




Bydd hyn yn cynnwys pethau fel edrych a yw pobl yn hapus â'r gwasanaethau maen nhw'n eu cael.



Rydyn ni wedi cychwyn gwahanol grwpiau i helpu i edrych ar ein gwaith.



A byddwn yn cychwyn fforymau ar draws cymunedau yng Nghymru a dal ati i siarad am y materion.



Mae ar Lywodraeth Cymru eisiau gosod esiampl dda o'r ffordd orau o weithio a delio â **hiliaeth**.



Mae arnon ni eisiau siarad mwy â phobl am eu profiadau a gwneud yn siŵr ein bod yn gwrando ar brofiadau pobl. Byddwn yn parchu yr hyn mae pobl yn ei ddweud wrthyn ni.





Weithiau bydd y sgyrsiau hyn yn anodd. Ond maen nhw'n bwysig iawn.



Rydyn ni'n gwybod os na fyddwn ni'n gwneud newidiadau mawr bydd ein Cynllun yn methu.



Mae arnon ni eisiau dal ati i wrando. A dal i edrych ar ein gwaith.



Mae arnon ni eisiau i bethau newid. Ac er mwyn i hyn ddigwydd mae'n rhaid i ni wneud llawer o waith.

# Geiriau anodd

## Ceisiwr lloches

Mae ceisiwr lloches yn berson sy'n gofyn am gael ei ddosbarthu fel ffoadur yn y wlad newydd y mae wedi mynd iddi. Mae'r wlad newydd yn edrych ar eu sefyllfa er mwyn gwneud penderfyniad.

## Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

Mae pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn bobl a all fod â lliw croen gwahanol. Neu fod yn grefydd wahanol.

Neu efallai eu bod yn dod o wlad arall.

Neu efallai yn byw mewn ffordd wahanol.

Efallai bod rhai pobl yn dod o fwy nag un wlad neu gefndir.

Yn y ddogfen hon byddwn yn dweud pobl lleiafrifoedd ethnig i fod yn fyr.

## Ffoadur

Mae ffoadur yn berson sydd wedi gorfod gadael ei wlad oherwydd ei fod mewn perygl yno. Er enghraifft, efallai bod rhyfel yno. Neu efallai ei fod yn cael ei fygwth.

## Gwrth-hiliaeth

Nid bod yn wrth-hiliaeth yn unig yw nid bod yn hiliol, mae'n golygu gwneud rhywbeth am hiliaeth a sefyll yn ei erbyn. Mae'n golygu newid ein cyfreithiau, ein polisïau, ein harferion a'r ffordd rydym yn gweithio ar draws gwasanaethau, fel bod pobl yn cael eu trin yn deg a bod eu bywydau'n well.

## Hiliaeth

Hiliaeth yw pan fydd rhywun yn trin person arall yn wahanol neu'n annheg oherwydd eu cefndir, eu diwylliant, eu credoau crefyddol neu sut maent yn byw.

## Islamoffobia

Mae hyn yn meddwl hiliaeth tuag at Fwslemiaid.